CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION RHAGFYR 8, 2015

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Rhagfyr 8, 2015 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Gethin Williams (Is-gadeirydd), John Hughes, Janet Edwards, Eirlys Roberts, Llinos Williams, Carwyn Evans, Elfed ap Gomer a Gareth Ellis. Hefyd Peredur Jenkins a Henry Edwards

1. Ymddiheuriadau: Geraint Rowlands.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 10, 2015

Wedi cywiro Eitem 10.b. i ddarllen 'Mae Llinos Williams yn cynnig fod yn gynrychiolydd ar bwyllgor Neuadd Bentref Llanelltyd yn y flwyddyn newydd', cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 10, 2015

Nid oedd materion yn codi.

5. Materion Ariannol

a. Balans yn y banc ar 29 Tachwedd 2015: £8,356.48.

b. Derbyniwyd (16/11/2015) £30.00 oddi wrth Commonwealth War Grave Commission. Maent yn rhoi'r taliad pob tair blynedd.

Penderfynwyd gwneud ymholiadau tuag at beth mae'r taliad yn cael ei roi.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. NP5/65/335. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Cynllun trydan dŵr 34kw arfaethedig yn cynnwys adeiladu argae, adeilad tyrbin a gosod pibellau cysylltiedig. Afon Hirgwm, Bontddu.

ii. NP5/65/91B. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Cynllun Adeiladu estyniad unllawr. Coedir, Llanelltyd.

iii. NP5/65/320A. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Cais rhannol ôl weithredol i adfer sgubor yn llety gwyliau a gosod uned trin carthion. Ysgubor ger Ty'n Lon, Bontddu.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (12/11/2015) oddi wrth Un Llais Cymru a llythyr (19/11/2015) oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn rhoi gwybod am gyfle i ddweud eich barn am blismona yn Clwb Golff Dolgellau ar 14/01/2016 am 6.00yh. Bydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Mr Winston Roddick yn bresennol.

b. Llythyr (Tachwedd 16, 2015) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd. Mae'n ymwneud a Her Gwynedd ac yn cynnwys rhestr o opsiynau mae Cyngor Gwynedd yn eu hystyried a all fod o ddiddordeb i Gynghorau Cymuned / Tref i gwblhau holiadur Her Gwynedd. Mae angen gwblhau'r holiadur cyn 30 Tachwedd 2015. Y rhestr sy'n berthnasol i ni yw:

Amg13 – Llwybrau Cyhoeddus
Amg17 – Cynnal Meinciau ac arwyddion enwau strydoedd.
Econ1 – Canolfannau Croeso'r Cyngor.
Econ6 – Pont Abermaw.
Amrwyio19 – Toiledau Cyhoeddus.

Os mae gan y Cyngor Cymuned diddordeb mewn cymryd mwy o gyfrifoldeb am wasanaethau Cyngor Gwynedd mae angen rhoi gwybod i Reolwr Cyswllt Mentrau Cymdeithasol.

c. Llythyr (Tachwedd 2015) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod nid oes gan y Cyngor cyfeiriad e-bost neu wefan. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 mae'n ofynnol i ni roi gwybodaeth ar wefan a bod e-bost.

Mae rhain wedi cael eu gwneud.

d. Llythyr (Tachwedd 2015) oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru. Yn Ionawr 2016 maent am ail lansio Cynllun Gwarchod y Gymdogaeth (Neighbourhood Watch Scheme) sy'n golygu bydd angen recriwtio a chofrestru aelodau newydd. Mae hyn i gynorthwyo'r heddlu.

dd. Llythyr (Rhagfyr) oddi wrth Canolfan Therapi Plant Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

e. Llythyr (8/12/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod ni fydd etholiadau Cynghorau a Thref yn 2016. Mi fyddant yn cael eu cynnal yn 2017 i gyd-fynd ag etholiadau Awdurdodau Unedol.

.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Ar wahoddiad Peredur Jenkins roedd Mr Iwan ap Trefor o Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Cyngor Gwynedd yn bresennol yn y Cyfarfod i gael barn yr aelodau ar y cynlluniau sy'n cael eu paratoi i ddiogelu ffordd A496 yn Bontddu a Taicynhaeaf.

Ar gynllun Bontddu mae'r arwydd '30' electroneg am gael ei addasu i weithio heb yr ysgol ei weithio, cael 'ARAF/SLOW 'ar wyneb y ffordd, ac awgrymwyd cael stripin coch ar ganol y ffordd o Halfway House at y bont.

Ar gynllun Taicynhaeaf mae 'crash barrier' am gael ei osod ar ochr y ffordd lle mae tai yn is na'r ffordd orllewinol o Borthwnog Hotel, rhoi draen o dan y ffordd, ac awgrymwyd rhoi stripin coch ar hyd ganol y ffordd.

Gwahoddwyd Mr a Mr K. William, Bontddu i'r cyfarfod ond nid oeddynt yn bresennol.

b. Mae'r awgrym i drosi'r 'compound' adeiladwyr Ysgol Llanelltyd i le parcio i'r athrawon yn dibynnu os mae'r tirfeddiannwr yn fodlon gwerthu'r tir.

10. Materion Brys

a. Cofiwch am y cyfarfod i drafod cael cynghorau dalgylch y Gader i gyd weithio. Bydd cyfarfod yn Neuadd Bentref y Brithdir ar nos Lun, Ionawr11, 2016 am 7.00yh. i drafod y mater.

O'r cyfarfod diwethaf penderfynwyd i'r cynghorau paratoi rhestr o asedau sydd ganddynt, y gwaith allanol sydd yn cael ei wneud, a gweithgareddau cymunedol sydd yn cael eu cynnal. Yn y dyfodol roedd yn syniad o gael Anwen Davies, Rheolydd Mentrau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd yn bresennol.

b. Mae angen i'r Cyngor prynu cyfrifiadur.

Penderfynwyd i Elfed ap Gomer gwneud ymholiadau am gyfrifiadur.

c. Penderfynwyd gofyn i Mr Edward Harries i drwsio'r fainc a'r wal gerrig sydd wrth y bont a mynedfa i Neuadd Bentref Llanelltyd.